**Y gymdeithas proffesiynol ar gyfer gwaith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol (Hil) GCY (H) |
| **Yn atebol i:** | Cyfarwyddwr Cenedlaethol BASW Cymru |
| **Yn gyfrifol am:** | Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol (Hil) GCY (H) |

## Crynodeb o'r swydd:

Bydd y CGY(H) yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol a chyrff proffesiynol cynrychioliadol, ADSS, Gofal Cymdeithasol Cymru, CIW, HIW ac Awdurdodau Lleol i godi ymwybyddiaeth, gwella gwybodaeth, nodi cyfleoedd hyfforddi a dangos llwyddiant drwy asesiadau effaith a gwerthusiadau wrth ddarparu gwasanaethau. Bydd deiliad y swydd yn cael cefnogaeth gan grŵp cyfeirio o weithwyr proffesiynol a phobl â phrofiad o fyw. Cefnogir y gwaith gan ganllawiau, hyfforddiant sy'n meithrin ymddiriedaeth a hyder gweithwyr proffesiynol wrth gefnogi anghenion gofal yn gadarnhaol ar gyfer aelodau o'r gymuned BAME.

## TASGAU

1.Cefnogi Gweithwyr Cymdeithasol a chyfranogwyr rheng flaen i ddatblygu eu hymarfer trwy gysylltu â chyflogwyr gwaith cymdeithasol ag SCW fel rheolydd y gweithlu i wella ymarfer proffesiynol wrth gefnogi gwahanol gymunedau, yn enwedig grwpiau ethnig lleiafrifol, cymunedau ac unigolion.

2.Cysylltu â chydweithwyr proffesiynol ym mhob rhan o sector gofal cymdeithasol Cymru a rhanddeiliaid allweddol i nodi, annog a lledaenu arfer gorau.

3.Defnyddio data gofal cymdeithasol yn effeithiol i gefnogi gwella ansawdd ymarfer.

4.Cynorthwyo'r CSCO i hyrwyddo diwylliant o ansawdd ymarfer i wella canlyniadau a phrofiad y sector gofal cymdeithasol i aelodau o grwpiau a chymunedau lleiafrifol ethnig.

5.Darparu mewnbwn a chyngor priodol ar amrywiaeth o fentrau i gyflwyno a sefydlu rhaglenni newid strwythurol parhaol sy'n effeithio'n gadarnhaol ar brofiadau grwpiau lleiafrifol ethnig a chymunedau.

6.Arwain a chynorthwyo i ddatblygu a sefydlu fforymau a thasgluoedd sy'n helpu i newid diwylliant yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.

7.Darparu cyfeiriad strategol ac arweiniad i gryfhau sut mae sefydliadau'n ymgysylltu â grwpiau a chymunedau lleiafrifoedd ethnig a'u hymgorffori yn eu gwaith, darpariaeth gwasanaethau gofal, byrddau, y Fforymau Partneriaeth Cenedlaethol a

Rhanbarthol a Fforymau a chyrff ehangach sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol yng Nghymru;

8.Argymell gwelliant mewn polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig i sicrhau arfer effeithiol sy'n gynhwysol ac anwahaniaethol.

9.Cysylltu â rhanddeiliaid Gofal Cymdeithasol allweddol i feithrin ymddiriedaeth a pherthynas waith i wella gwybodaeth a sgiliau gweithwyr gofal i ymgysylltu a darparu gwasanaethau i grwpiau a chymunedau lleiafrifoedd ethnig.

10.Ymarfer mewn modd gwrth-wahaniaethol sy'n cefnogi amrywiaeth a chydraddoldeb i bawb.

11.Annog amgylchedd gwaith sy'n hybu iechyd, diogelwch a lles eich hunan ac eraill.

12.Cyflawni dyletswyddau yn unol â gofynion rheoleiddio Gofal Cymdeithasol Cymru.

13. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gyflawni rhaglen waith y cytunwyd arni. Byddant yn sefydlu grŵp cyfeirio o weithwyr proffesiynol a phobl â phrofiad personol i gefnogi eu gwaith.

14. Darparu cyngor proffesiynol annibynnol, rhagfynegol ac adweithiol, a rhoi arweiniad yn y meysydd a nodir gan bartneriaid perthnasol.

15.Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio ar draws ffiniau sefydliadol a chyda rhanddeiliaid allweddol yn y sector gofal a chyrff cydraddoldeb a hawliau dynol ehangach. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda Gweinidogion a chyfarwyddwyr adrannau Llywodraeth Cymru gan gynnwys Cymunedau, Diogelwch Cymunedol, Cyswllt â'r Heddlu, Addysg, yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Cyfarwyddiaethau Iechyd. Bydd yn ymestyn i weithio gyda chyrff proffesiynol gofal / iechyd a chyrff cynrychioliadol gan gynnwys ADSS, CLILC, SCW, WCVA, EHRC, ADSS a BASW. Bydd blaenoriaethau'n cael eu pennu gan y sawl a benodir, y corff cynnal a'r grŵp cyfeirio.

### Pethau Allweddol i'w Cyflawni:

Cefnogi gwelliant mewn gwybodaeth a chymhwyso arfer da. Bydd y sawl a benodir yn cael ei leoli gyda BASW Cymru a'i brif rôl yw cefnogi ymarferwyr gwaith cymdeithasol i wella ymgysylltiad â chymunedau amrywiol a dylanwadu ar brofiad mwy cadarnhaol o ddarpariaeth gofal cymdeithasol. Bydd yn dangos newid dylanwadol mewn diwylliant, ymarfer a gwelliant yn sgiliau a ffitrwydd ymarferwyr gwaith cymdeithasol unigol.

### Materion Eraill

1. Bydd deiliad y swydd yn atebol i Gyfarwyddwr Cenedlaethol BASW Cymru.
2. Bydd deiliad y swydd yn mynychu cyfarfodydd chwarterol rheolaidd gyda'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol.

3. Sicrhau bod gweithgareddau a nodir yn cael eu rheoli'n effeithlon o fewn y gyllideb sydd ar gael.
4. Mesur effaith a monitro cynnydd.
5. Ymgymryd â'r holl ddyletswyddau yn unol â holl bolisïau BASW DU a gweithio tuag at eu datblygu a'u gweithredu'n barhaus.
6. Ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol fel sy'n ofynnol gan y Cyfarwyddwr Cenedlaethol neu'r Prif Weithredwr.

Mewn partneriaeth â / In partnership with

Newid Cadarnhaol mewn Gofal Cymdeithasol
Positive Change in Social Care

Llywodraeth Cymru
Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth
Welsh Government
National Office for Care and Support